Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Y Diwlith
**313 Bridgend Road**
**Maesteg**
**Pen-y-bont ar Ogwr**
**CF34 0AX**

**Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2015**

**gan**

**Nicholas Jones**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 14/01/2016**

## Cyd-destun

Lleoliad cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Y Diwlith a leolir yn nhref Maesteg, yn awdurdod lleol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'n cyfarfod mewn adeilad mawr sydd wedi ei addasu ar ddau lawr ar gyfer darpariaeth feithrin. Mae'r lleoliad ar agor am bum diwrnod o'r wythnos ac mae ganddo bedwar aelod o staff.

Mae cofrestriad y lleoliad yn ei alluogi i gymryd hyd at 40 o blant. Mae'n derbyn plant rhwng dwy a thair oed. Ar adeg yr arolygiad, mynychodd 16 o blant, nid yr un ohonynt wedi eu hariannu gan yr awdurdod lleol ar hyn o bryd.

Mae bron pob un o'r plant o darddiad gwyn Prydeinig ac maent i gyd yn siarad Saesneg fel eu hiaith gyntaf. Ychydig iawn o blant sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Dechreuodd yr arweinwyr eu swyddi ym mis Medi 1999 ac un ohonynt yw'r person cofrestredig. Arolygwyd y lleoliad gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ddiwethaf yn Ionawr 2015. Arolygodd Estyn y lleoliad ddiwethaf yn Rhagfyr 2009.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Er bod angen gwella agweddau o'r addysgu ac asesu, mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd:

- Profiadau dysgu, sy'n cael eu cynllunio'n dda ar y cyfan
- Perthnasoedd cadarnhaol rhwng oedolion a phlant
- Gofal y plant, sy'n ddiwyd
- Defnydd llwyddiannus o adnoddau tu mewn i'r adeilad
- Partneriaethau pwrpasol gyda'r gymuned leol a'r rhieni a gofalwyr

### Rhagolygon gwella

Er bod angen datblygu rhai o'r systemau i wella ansawdd, mae rhagolygon y lleoliad ar gyfer gwella'n dda oherwydd:

- Ymwybyddiaeth gadarn yr arweinwyr bod cynllunio strategol effeithiol yn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant
- Ymwybyddiaeth briodol gan arweinwyr y bydd datblygiadau i'r adeilad ac adnoddau'n gwella deilliannau'r plant
- Awydd i ddefnyddio cymorth wrth asiantaethau allanol
- Penderfyniad yr arweinwyr i gynnal a datblygu'r adeilad drwy grantiau a chefnogaeth gymunedol
- Parodrwydd yr arweinwyr i godi arian a gwella adnoddau dros amser

## Argymhellion

A1 Herio plant unigol yn unol â'u galluoedd

A2 Cwblhau asesiadau rheolaidd sy'n arwain yn uniongyrchol at y camau nesaf yn dysgu'r plant

A3 Datblygu a chyfoethogi'r adnoddau a'r profiadau yn yr ardal allanol

A4 Sicrhau bod y targedau yn y cynllun datblygu yn deillio'n uniongyrchol o hunan arfarnu'r lleoliad

A5 Sicrhau bod yr holl staff yn mynychu hyfforddiant rheolaidd a chyfleoedd effeithiol i ddatblygu'n broffesiynol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Dim yn berthnasol |
|---|---|

**Safonau: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

**Lles: Dim yn berthnasol**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Yn gyffredinol, mae'r cwricwlwm yn diwallu athroniaeth y Cyfnod Sylfaen yn dda. Mae'n sicrhau bod llawer o blant yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. Mae'r cwricwlwm yn adeiladu'n briodol ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol llawer o blant. Mae'n cynnwys gweithgareddau diddorol ar gyfer datblygu medrau llawer o blant ar draws y cwricwlwm, yn enwedig medrau rhifedd yn yr amgylchedd dan do.

Mae'r holl staff yn cyfrannu'n synhwyrol at gynllunio wythnosol y cwricwlwm. Mae'r arweinwyr yn cydlynu hyn yn effeithlon ac mae safbwyntiau a syniadau pob aelod o staff yn cael eu hystyried yn dda. Mae'r cwricwlwm yn hyblyg i ganiatáu i staff i ddilyn diddordebau plant, yn enwedig tu mewn i'r adeilad.

Mae'r arweinwyr yn cynllunio gweithgareddau dyddiol yn effeithlon ac mae'r plant yn cael y rhyddid i ddewis eu tasgau a'u gweithgareddau eu hunain. Mae tasgau llythrennedd a rhifedd yn amlwg ac maent yn cael eu cynllunio'n dda ar y cyfan. Mae hyn yn llai amlwg yn yr ardal allanol. Darperir cyfleoedd da hefyd i'r plant ddatblygu eu medrau corfforol, creadigol a meddwl drwy ddefnyddio teganau mawr dan do, tasgau adeiladu a gweithgareddau chwarae rôl. Mae'r mwyafrif o oedolion yn cyfathrebu'n addas gyda'r plant yn y Gymraeg. Mae'r staff yn annog y plant i ymateb yn y Gymraeg ac maent yn gadarnhaol am ddefnydd yr iaith mewn gweithgareddau bob dydd.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd buddiol o ymweliadau ac ymwelwyr i gyfoethogi'n llwyddiannus profiadau dysgu'r plant. Er enghraifft, mae ymweliadau â siopau a busnesau lleol a'r orsaf dân yn ychwanegu diddordeb at y cwricwlwm, sy'n datblygu ac ymestyn profiadau'r plant yn effeithiol. Mae ymwelwyr, sy'n cynnwys nyrsys deintyddol, swyddogion yr heddlu a chymeriadau o lyfrau stori Cymreig, yn effeithio ar brofiadau dysgu'r plant yn gadarnhaol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu

medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu’r (TGCh) plant yn dda. Mae’r staff yn cyfeirio'r plant yn bwrpasol tuag at y defnydd o adnoddau technolegol fel cyfrifiaduron, camerâu, tiliau a theganau electronig.

Mae traddodiadau a dathliadau o ddiwylliant Cymru yn cael eu pwysleisio’n dda. Gwneir hyn drwy ddathliadau, megis Dydd Gŵyl Dewi a diwrnod Santes Dwynwen ac ymweliadau â thraethau lleol ac atyniadau rheilffordd. Mae’r mwyafrif o’r staff yn canu ac adrodd rhigymau Cymreig yn ystod y sesiynau, sy'n helpu dealltwriaeth y plant o'r iaith. Mae staff yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o ddiwylliannau eraill yn dda. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dathlu gwyliau, megis, y Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

**Addysgu: Digonol**

Mae gan y staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth addas o ofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae perthynas gadarnhaol rhwng yr holl staff a'r plant. Mae gan staff rôl weithredol wrth gynllunio'r cwricwlwm ac mae’r defnydd gorau'n cael ei wneud o'u harbenigedd. Fodd bynnag, nid yw staff yn ysgogi plant yn llwyddiannus yn ystod gweithgareddau ffocws i sicrhau bod plant unigol yn cael eu herio'n briodol yn unol â'u galluoedd.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol. Mae pob plentyn yn dewis yn synhwyrol rhwng gweithgareddau a arweinir gan oedolion a gweithgareddau a arweinir gan blant. Fodd bynnag, ar adegau, mae’r staff yn ymyrryd gormod ac nid ydynt yn caniatáu i blant ddatblygu eu medrau annibynnol yn llwyddiannus.

Mae’r staff yn modelu iaith yn briodol er mwyn datblygu sgiliau meddwl a chyfathrebu plant. Mae’r staff yn annog y plant i werthuso’n synhwyrol wrth iddynt drafod storïau a disgrifio'r hyn y maent wedi ei adeiladu’n annibynnol. Yn yr adeilad, mae’r staff yn darparu amgylchedd diddorol sy'n sicrhau’n llwyddiannus bod yr holl blant yn cymryd rhan ac yn mwynhau. Fodd bynnag, nid yw'r addysgu yn yr awyr agored yn ysgogol.

Mae gweithdrefnau asesu priodol yn bodoli. Mae’r staff yn cwblhau'r cofnodion o gyflawniadau'r plant yn addas. Fodd bynnag, nid yw’r asesiadau yn arwain, gyda digon o fanylder, i dargedau plant unigol a'r camau nesaf yn eu haddysg. Mae'r lleoliad yn hysbysu’r rhieni a’r gofalwyr yn dda am gyflawniadau eu plant ac mae'r wybodaeth ar gael iddynt ar unrhyw adeg.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y lleoliad ar gyfer sicrhau iechyd, lles, datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol. Mae’r staff yn meithrin gwerthoedd, fel gonestrwydd, tegwch a pharch yn gyson drwy weithgareddau dyddiol. Maent yn gweithio'n ddiwyd i hybu hunan barch a hyder y plant. Mae’r plant yn cael cyfleoedd da i fyfyrio, gweddïo, trafod eu teimladau, ac maent yn dysgu i gymryd eu tro. Mae amser byrbryd yn achlysur cymdeithasol ac mae’r plant yn cael eu hannog yn bwrpasol i gymryd cyfrifoldeb am weini tost a rhannu llaeth. Mae'r lleoliad yn gwneud trefniadau priodol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae pob plentyn yn glanhau eu dannedd bob dydd, sy'n annog gofal deintyddol yn effeithiol.

Mae cyfleoedd da ar gael i bob plentyn i ailgylchu papur, plastig a bwyd. Mae hyn yn dechrau datblygu eu dealltwriaeth o gynaliadwyedd yn effeithiol.

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae'r lleoliad yn darparu amgylchedd diogel. Mae'r drysau ar glo ac agorwyd gan aelod o staff yn unig. O ganlyniad, ni all unrhyw un ddod mewn neu blentyn adael heb gwmni. Mae'r ardal allanol wedi'i hamgáu o fewn ffiniau'r lleoliad ac mae'r giât wedi'i gloi ac yn cael i'w fonitro pan fydd y plant yn yr awyr agored. Mae gofal da yn cael ei gymryd pan fydd plant yn cael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr hysbys.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Y ddau arweinydd yw'r cydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol. Maent yn gyfarwydd â'r gweithdrefnau angenrheidiol ar gyfer cefnogi plant ag anghenion ychwanegol ac yn defnyddio cymorth allanol yn dda.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Trwy'r gweithgareddau dyddiol a'r agweddau sy'n cael eu mabwysiadu gan y staff, mae'r lleoliad yn hyrwyddo ethos positif. Mae'r staff yn adnabod y plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei gydnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm diddorol, er bod diffyg o ardal awyr agored addas yn cyfyngu hyn i ryw raddau. Mae'r lleoliad yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol yn dda, sy'n cael gwared ag unrhyw aflonyddwch neu ymddygiad gormesol.

Mae gan staff y lleoliad cymwysterau addas a phrofiad da. Mae'r gymhareb oedolyn i blentyn yn ffafriol. Mae arbenigedd staff yn cael ei ddefnyddio'n effeithlon wrth gynllunio profiadau dysgu ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae'r lleoliad yn defnyddio'i adnoddau yn llwyddiannus yn yr adeilad i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Mae'r adnoddau'n hygyrch i bob plentyn, sy'n hyrwyddo synnwyr y plant o gyfrifoldeb yn dda. Mae'r adnoddau'n cael eu rhannu'n effeithiol rhwng tasgau ffocws a gweithgareddau parhaus a chyfoethogi.

Mae'r ardal allanol yn gyfyng iawn. Mae'r lleoliad yn tyfu planhigion mewn potiau ac ychydig o ardaloedd tyfu. Fodd bynnag, mae'r cyfleoedd sydd ar gael i blant dyfu planhigion a chwarae gyda theganau mawr yn yr awyr agored yn gyfyng iawn ac nid ydynt yn heriol, yn ddiddorol neu'n ysgogol.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau'n llawn ac yn cydweithio'n dda fel tîm. Mae ymwybyddiaeth gadarn gan yr arweinwyr bod cynllunio strategol effeithiol yn gwella'r ddarpariaeth a deilliannau'r plant. Maent yn defnyddio arweiniad gan asiantaethau allanol, megis yr awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin, yn synhwyrol. Maent hefyd yn defnyddio arbenigedd Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru ar adegau am gefnogaeth weinyddol ac i sicrhau bod y lleoliad yn cael ei yswirio'n effeithiol. Mae'r arfer hwn yn sicrhau'r defnydd gorau o arbenigedd i gefnogi'r lleoliad.

Mae'r cynllun datblygu yn nodi meysydd i'w gwella yn weddol gywir.  Mae targedau'r cynllun strategol yn cael effaith gadarnhaol drwy greu gwelliannau dros amser.  Fodd bynnag, nid yw'r targedau’n deillio gyda digon o fanylder o'r adroddiad hunan arfarnu.

Mae hyfforddiant staff yn datblygu'n briodol.  Mae'r arweinwyr yn effeithlon ar y cyfan ac yn rhoi ystyriaeth dda i ddeddfwriaeth ac mae eu systemau rheoli yn cwrdd â'r gofynion.  Mae'r ymddiriedolwyr yn cefnogi’r lleoliad pan fydd angen.  Mae'r lleoliad yn rhoi ystyriaeth dda i flaenoriaethau cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn addas.

**Gwella ansawdd:  Digonol**

Wrth gynhyrchu'r hunan arfarnu, mae'r lleoliad yn ystyried yn briodol sylwadau’r rhan fwyaf o asiantaethau sy'n ymwneud â'r lleoliad.  Fodd bynnag, nid oes cyswllt effeithiol rhwng yr hunan arfarnu a'r targedau yn y cynllun datblygu.

Er bod rhai o anghenion y lleoliad yn cael eu nodi’n addas yn y cynllun datblygu, nid oes unrhyw gyfeiriadau penodol amdanynt yn yr hunan arfarnu.  Mae'r arweinwyr yn trafod y cynllun datblygu yn hyderus, fodd bynnag, nid ydynt yn glir am y broses y maent yn eu defnyddio i gyrraedd eu targedau.  Mae'r meysydd i'w gwella yn cynnwys datblygu’r fframwaith llythrennedd a rhifedd wrth gynllunio, gwella’r arferion ailgylchu, datblygu ardal ymchwilio a darparu carped newydd yn yr ystafell gyfrifiaduron.  Mae ychydig o argymhellion o'r arolygiad blaenorol yn parhau fel meysydd i'w datblygu.

Mae'r lleoliad yn targedu’r ardaloedd hyn yn effeithiol yn erbyn meini prawf llwyddiant a graddfeydd amser.  Mae’r arweinwyr yn nodi'r cyfrifoldebau monitro yn synhwyrol.  Mae'r arweinwyr, staff, yr awdurdod lleol, y Mudiad Meithrin a'r ymddiriedolwyr yn rhoi blaenoriaeth briodol iddynt wrth ddatblygu’r lleoliad.  Mae’r staff yn gwneud defnydd addas o brofiadau dysgu proffesiynol, fodd bynnag, mae’r ddarpariaeth o gyfleoedd hyfforddiant diweddar yn anghyson.

**Gweithio mewn partneriaeth:  Da**

Ceir perthynas effeithiol rhwng y lleoliad â'r rhieni, cymuned y dref a nifer o sefydliadau a busnesau lleol.  Mae llyfryn manwl ar gyfer rhieni a gofalwyr, sy'n rhoi manylion perthnasol iddynt am y lleoliad.

Erbyn i'r plant adael y lleoliad, maent yn cael eu paratoi'n addas ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg yn yr ysgol.  Mae’r lleoliad yn nodi bod eu cysylltiadau gyda'r ysgol leol yn gadarnhaol ac mae’r systemau pontio’n gwella.  O ganlyniad, mae’r plant yn fwy cyfarwydd â gweithdrefnau'r ysgol cyn iddynt ddechrau addysg llawn amser.

Mae partneriaethau cadarn ac effeithiol yn bodoli gydag ystod o sefydliadau cymunedol.  Mae'r partneriaethau gyda'r Mudiad Meithrin, yr awdurdod lleol a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru yn briodol.  Maent yn helpu'r lleoliad i symud ymlaen yn briodol gyda thasgau gweinyddol, deddfwriaethol ac ymarferol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r arweinwyr wedi rheoli cynnal a chadw'r adeilad yn dda. Caiff adnoddau eu hariannu a'u rheoli'n effeithlon i gefnogi dysgu ac i greu gwelliannau i'r lleoliad, yn enwedig dan do. Mae'r arweinwyr a'r ymddiriedolwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau priodol, sy’n cefnogi profiadau dysgu'r plant, eu gofal a'r amgylchedd dysgu dan do yn dda. Mae'r staff yn gwneud defnydd da o'r adeilad a'r ardal leol i ddarparu ystod o brofiadau dysgu diddorol.

Mae'r staff yn cydweithio'n effeithiol ac maent yn defnyddio cefnogaeth y gymuned leol yn dda i hyrwyddo cyngherddau a gweithgareddau codi arian. Mae defnydd synhwyrol o'r holl adnoddau sydd ar gael. Maent yn hygyrch i’r plant.

Er bod angen gwella agweddau o’r addysgu, yr hunan arfarnu a'r ardal awyr agored, mae'r ddarpariaeth gyffredinol ac ymroddiad yr arweinwyr a'r staff yn golygu bod y lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

# Atodiad 1

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i rieni

*denotes the benchmark - this is a total of all responses since September 2010.*

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the setting. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r lleoliad yn gyffredinol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 80% | 20% | 0% | 0% | | |
| My child likes this setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r lleoliad hwn. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the setting. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn y lleoliad. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 86% | 13% | 0% | 0% | | |
| My child is making good progress at the setting. | 13 | 9 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn y lleoliad. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 18% | 1% | 0% | | |
| Children behave well in the setting. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae plant yn ymddwyn yn dda yn y lleoliad. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 27% | 1% | 0% | | |
| Teaching is good. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 1 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 12 | 11 | 1 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 84% | 16% | 0% | 0% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 12 | 10 | 2 | 0 | 0 | 1 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 83% | 17% | 0% | 0% | | |
| | | 76% | 23% | 0% | 0% | | |
| My child is safe at the setting. | 13 | 12 | 1 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn y lleoliad. |
| | | 92% | 8% | 0% | 0% | | |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 28% | 1% | 0% | | |
| I am kept well informed about my child’s progress. | 13 | 11 | 2 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 31% | 6% | 1% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the setting with questions, suggestions or a problem. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo’n gysurus ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r lleoliad, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 80% | 18% | 1% | 0% | | |
| I understand the setting's procedure for dealing with complaints. | 13 | 11<br>85% | 2<br>15% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn y lleoliad ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 66% | 31% | 3% | 1% | | |
| My child is well prepared for moving on to school. | 11 | 9<br>82% | 2<br>18% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol. |
| | | 74% | 25% | 1% | 0% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 12 | 9<br>75% | 3<br>25% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 64% | 32% | 4% | 1% | | |
| The setting is well run. | 13 | 12<br>92% | 1<br>8% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r lleoliad yn cael ei redeg yn dda. |
| | | 82% | 17% | 1% | 0% | | |

# Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Nicholas Jones | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |